Sir Ddinbych Hygyrch




# Coed Llangwyfan

## Gwybodaeth am y Llwybr

Gellir dilyn teithiau sy'n llinellol neu'n grwn o'r maes parcio, yn dibynnu ar allu'r cerddwr. Mae rhai dringfeydd serth ac arwyneb garw/mwdlyd.

*Pellter:* 3.5cilomedr / 2 filltir Neilltuwch: 1 – 1.5 awr

*Arwyneb:* Arwyneb naturiol wedi'i gywasgu, sy'n gallu troi'n fwdlyd iawn mewn mannau.

*Lled y Llwybr:* Lleiafswm o 60cm am ran fach gyda thyfiant ar y naill ochr.

*Llethrau:* Ambell raddiant serth mewn mannau, yn enwedig ar y llwybr isaf.

*Giatiau:* Mae pedair giât ar y llwybr, gyda chliriad o 90cm fan leiaf.

## Gwybodaeth i Ymwelwyr

*Ar gyfer llywio â Lloeren, defnyddiwch gyfeirnod grid:* SJ138667. Does dim trafnidiaeth gyhoeddus at y safle hwn.

*Parcio:* Mae gan y maes parcio arwyneb graean rhydd a does dim llefydd wedi'u dynodi.

*Toiledau:* Does dim toiledau ar y safle.

**Dewch â dillad rhag y glaw a gwisgwch esgidiau addas. Defnyddiwch hufen haul ym misoedd yr haf.**

Gwybodaeth bellach: www.denbighshirecountryside.org.uk